RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
71/2021
DYDDIAD CYHOEDDI:
04/11/2021

# Parodrwydd y Cyhoedd i Dalu am Fagiau Siopa yng Nghymru

© Hawlfraint y Goron Digital ISBN: 978-1-80195-712-0

Teitl: Parodrwydd y Cyhoedd i Dalu am Fagiau Siopau yng Nghymru

Awduron: Emily Wolstenholme, Lucy Campbell ac Isabella Malet-Lambert

Yr Adroddiad Ymchwil Llawn: Campbell, L., Malet-Lambert, I., & Wolstenholme, E. (2021); *Parodrwydd y Cyhoedd i Dalu am Fagiau Siopa yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif GSR 71/2021
Ar gael yn: https://llyw.cymru/parodrwydd-y-cyhoedd-i-dalu-am-fagiau-siopa-yng-nghymru

Barn yr ymchwilwyr yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad, nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Aimee Marks
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwildyfodolcynaliadwy@llyw.cymru

## Tudalen Gynnwys


Rhestr o ffigurau ..................................................3
Geirfa… ..................................................4
1. Cyflwyniad/Cefndir ..................................................7
2. Methodoleg ..................................................11
Cyfyngiadau….. ..................................................12
3. Canfyddiadau ..................................................13
Bag Plastig Untro……..................................................13
Bag Plastig Gydol Oes ..................................................14
Bag Plastig Gydol Oes Cryfder Ychwanegol ..................................................15
Bag Cynfas Gydol Oes Cryfder Ychwanegol ..................................................16
Bag Defnydd Gydol Oes Cryfder Ychwanegol ..................................................18
Bag Cotwm ..................................................19
Cymhellion/Rhesymau dros ddefnyddio Bagiau Siopa ..................................................20
Newidiadau yn y defnydd o fagiau siopa ers dechrau pandemig COVID-19 ..................................................22
4. Casgliadau ..................................................25
Atodiad A – Yr Arolwg ..................................................28
Atodiad B – Tablau Demograffig ..................................................51

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 3.1: Beth yw'r pris uchaf y byddech chi'n fodlon ei dalu am fag plastig untro?...........13

Ffigur 3.2: Beth yw'r pris uchaf y byddech chi'n fodlon ei dalu am fag plastig gydol oes?....14

Ffigur 3.3: Beth yw'r pris uchaf y byddech chi'n fodlon ei dalu am fag plastig gydol oes cryfder ychwanegol?..........................................................................................16

Figure 3.4: Beth yw'r pris uchaf y byddech chi'n fodlon ei dalu am fag cynfas gydol oes cryfder ychwanegol?..........................................................................................18

Figure 3.5: Beth yw'r pris uchaf y byddech chi'n fodlon ei dalu am fag defnydd gydol oes cryfder ychwanegol?..........................................................................................19

Figure 3.6: Beth yw'r pris uchaf y byddech chi'n fodlon ei dalu am fag cotwm?...................20

Ffigur 3.7: Gan feddwl am yr adegau rydych wedi defnyddio eich bagiau siopa eich hun mewn siopau (yn hytrach na'u prynu nhw wrth dalu), beth oedd eich rheswm am wneud hyn?..........................................................................................................22

Ffigur 3.8: Ers pandemig COVID-19, sut mae eich defnydd o fagiau siopa untro wedi newid, o gymharu â chyn y pandemig? ..........................................................................23

Ffigur 3.9: Beth yw'r prif reswm dros newid eich defnydd o fagiau siopa untro?..................24

**Geirfa**

| Acronym/Gair Allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Bag Siopa Untro | Mae'r rheoliadau diffinio Bag Siopa Untro fel unrhyw fag nad yw wedi ei ddylunio yn benodol ar gyfer ei ailddefnyddio sawl gwaith ac nad yw'n cael ei gyfnewid am ddim gan y manwerthwr pan fydd wedi treulio, er y gall gael ei ddefnyddio fwy nag unwaith,. Gall fod wedi'i wneud yn llwyr neu'n bennaf o bapur, deunydd sy'n deillio o bapur, starts naturiol neu blastig. Os yw wedi'i wneud o blastig, diffinnir fod bag siopa untro yn fwy na 49 micron o drwch, a bod ei fesuriadau (lled neu uchder) yn fwy na 404mm a bydd o leiaf un o fesuriadau'r bag yn fwy na 439mm. |
| Tâl am Fag Siopa Untro | Mae'r rheoliadau'n gosod tâl isafswm o 5 ceiniog am Fagiau Siopa Untro. Cesglir y tâl hwnnw gan y manwerthwr a gofynnir bod yr elw'n cael ei roi i achosion da yng Nghymru.<br>Ni chodir tâl am fagiau sydd wedi'u gwneud yn llwyr o bapur nad ydynt yn fwy na 175mm (o led) a 260mm (o uchder) ac nad oes ganddynt gwysed na handlen. |
| Bag Plastig Gydol Oes | Mae'r bagiau hyn yn debyg i fagiau plastig untro, ond maent wedi cael eu gwneud o blastig fwy trwchus, gyda'r bwriad i'w hailddefnyddio wrth fynd i siopa. Mae gofyn i archfarchnadoedd roi bagiau yn eu lle pan na fydd modd eu defnyddio mwyach. |
| Bag Plastig Gydol Oes Cryfder Ychwanegol | Mae'r bagiau hyn yn fwy na'r bagiau plastig untro, a bagiau plastig gydol oes arferol. Maent wedi cael eu gwneud o blastig caled parhaol ac wedi'u dylunio i gael eu hailddefnyddio sawl gwaith. |

| | |
|---|---|
| Bag Cynfas Gydol Oes Cryfder Ychwanegol | Mae'r bagiau hyn yn fwy na'r bagiau plastig untro, a bagiau plastig gydol oes arferol. Maent wedi cael eu gwneud o gynfas neu hesian, ac wedi'u dylunio i gael eu hailddefnyddio sawl gwaith. |
| Bag Defnydd Gydol Oes Cryfder Ychwanegol | Mae'r bagiau hyn yn fwy na'r bagiau plastig untro, a bagiau plastig gydol oes arferol. Maent wedi cael eu gwneud o ddefnydd artiffisial, ac wedi'u dylunio i gael eu hailddefnyddio sawl gwaith |
| Bag Cotwm | Mae'r bagiau hyn yn fwy na'r bagiau plastig untro, a bagiau plastig gydol oes arferol. Maent wedi cael eu gwneud o gotwm, ac wedi'u dylunio i gael eu hailddefnyddio sawl gwaith. |
| Cyfartaledd | Fe'i gelwir hefyd y gwerth cymedrig rhifyddol. Y cyfartaledd yw swm y gwerthoedd wedi'i rannu â nifer y gwerthoedd. |
| Canolrif | Y gwerth sy'n gwahanu hanner isaf a hanner uchaf sampl o ddata. Cyfeirir ato fel y "gwerth canol". Mae'n rhoi "gwerth nodweddiadol gan nad yw'n cael ei lurgunio gan gyfran bychan o werthoedd eithafol. |
| Yr Amrediad Rhyngchwarterol (IQR) | Mae'r amrediad rhyngchwarterol yn mesur gwasgariad y gwerthoedd o fewn set o ddata. Mae'n dangos y gwahaniaeth rhwng y chwartel cyntaf (y 25ain canradd) a'r trydydd chwartel (y 75ed canradd) o'r set ddata, gan felly mesur ystod y 50% canol y gwerthoedd. |
| RIA | Asesiad Effaith Rheoleiddiol |
| Gradd Gymdeithasol[1]: ABC1 | Rheoli, gweinyddu a phroffesiynol uwch; Rheoli, gweinyddu a phroffesiynol canolraddol; Goruchwylio, clercol a rheoli, gweinyddu a phroffesiynol is |

[1] Dosbarthiadau'r Graddau Cymdeithasol yn ôl National Readership Survey

| | |
|---|---|
| Gradd Gymdeithasol: C2DE | Gweithwyr llaw creftus; gweithwyr llaw lled-grefftus a di-grefft; Pensiynwyr y wlad, gweithwyr achlysurol a gradd isaf, y diwaith â buddiannau gwladol yn unig. |

## 1. Cefndir

1.1 Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig (y DU) i gyflwyno tâl am fagiau siopa untro er mwyn lleihau'r defnydd ohonynt a thrwy hynny lleihau effeithiau eu cynhyrchu, eu defnyddio a'u gwaredu ar yr amgylchedd. Y nod oedd newid ymddygiad a chael pobl i ddefnyddio bagiau amldro yn eu lle.

1.2 Mae Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010[2] yn ei gwneud yn ofynnol ar i bawb sy'n gwerthu nwyddau yng Nghymru neu sy'n dosbarthu nwyddau i bobl yng Nghymru (gwerthwyr) i godi tâl o 5 ceiniog fan leiaf am bob bag siopa untro a roddir. Codir y tâl yn y man gwerthu, am nwyddau a werthir mewn siop a nwyddau a ddosberthir. Nid oes tâl gorfodol ar hyn o bryd ar fathau eraill o fagiau siopa (e.e. 'bagiau gydol oes' amldro) sydd wedi'u gwneud o blastig neu ddefnydd arall.

1.3 Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r tâl am fagiau siopa untro: asesiad cynnar o effaith y tâl[3]. Edrychwyd ar y duedd yn y galw am fagiau siopa untro rhwng 2011 a 2015 yn ogystal ag ar y manteision a'r costau amgylcheddol ac economaidd a ragwelir. Edrychwyd hefyd ar agweddau ac ymddygiad manwerthwyr a defnyddwyr wrth ymateb i'r tâl o 5 ceiniog am fagiau siopa untro. Dangosodd y canlyniadau bod gostyngiad arwyddocaol (71%) yn nifer y bagiau siopa untro a gyflenwyd yng Nghymru yn 2011-2014, ynghyd ag effeithiau positif calonogol eraill ar gwsmeriaid, gan gynnwys mwy yn defnyddio'u bagiau eu hunain a chefnogaeth eang i gadw'r tâl ac i'w roi ar 'fagiau gydol oes'. Er enghraifft, yn ôl yr adroddiad, gwelwyd bod dros draean o'r ymatebwyr (35%) yn dweud eu bod wedi rhoi'r gorau'n llwyr i gymryd bagiau siopa untro ers dechrau codi'r tâl a dywedodd 42% arall eu bod yn cymryd llai nag oedden nhw cyn cyflwyno'r tâl. Amcangyfrifodd adroddiad mwy diweddar yn 2019[4] y bu gostyngiad pellach o 21% rhwng 2015 a 2018 yn nifer y bagiau siopa untro a gyflenwyd gan fanwerthwyr yng Nghymru.

1.4 Er i adroddiadau 2015 a 2019 ddangos i'r tâl am fagiau siopa untro esgor ar fanteision clir, mynegwyd pryderon yn y ddau adroddiad ynghylch y cynnydd

---

[2] Am fanylion llawn, darllenwch Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010

[3] Am ragor o wybodaeth, darllenwch yr Adolygiad ôl-weithredu codi tâl ar fagiau siopa untro yng Nghymru (2016).

[4] Ymchwil am Werthiant a Defnydd Bagiau Siopa yng Nghymru | LLYW.CYMRU

tybiedig yn y defnydd o fagiau plastig gydol oes sy'n cael eu marchnata fel dewis ailddefnyddiadwy. Gan nad oes gofyn i fusnesau gofnodi sawl bag amldro sy'n cael ei werthu mewn unrhyw ran o'r DU, roedd y data a gafwyd ar gyfer yr ymchwil yn seiliedig ar fodelau a samplau bychain o ddata. Fodd bynnag, roedd y ddau adroddiad yn dyfalu y gallai bagiau plastig gydol oes dyfu'n broblem bosibl a bod defnyddwyr i'w gweld yn eu defnyddio fel bagiau untro: yn eu prynu yn yr archfarchnad, yn eu defnyddio unwaith neu ddwywaith cyn cael gwared arnyn nhw (Llywodraeth Cymru, 2015; 2019). Mae hyn yn destun gofid oherwydd os nad ydyn nhw'n cael eu hailddefnyddio'n aml, gallai bagiau plastig amldro, gan eu bod yn fwy trwchus na bagiau untro, gael fwy o effaith amgylcheddol fesul defnydd na'r bagiau y maen nhw i fod cymryd eu lle.

1.5 Aeth Asiantaeth Amgylchedd y DU ati i ymchwilio i hyn, gan edrych ar effeithiau amrywiaeth o wahanol fathau o fagiau siopa sydd ar gael yn gyffredin mewn archfarchnadoedd ar yr amgylchedd. Ceisiwyd cyfrif sawl gwaith y byddai angen i bob math o fag gael ei ailddefnyddio iddo wneud llai o ddifrod i'r amgylchedd (o safbwynt eu potensial i dwymo'r ddaear) na bag untro cyffredin[5]. Ar gyfer bag plastig gydol oes amldro cyffredin, barnwyd y byddai angen ei ailddefnyddio rhwng 3 a 9 gwaith, gan ddibynnu ar yr opsiynau ar gyfer ailddefnyddio a gwaredu'r bagiau. Byddai angen ailddefnyddio bag cotwm rhwng 131 a 393 o weithiau.

1.6 Yn 2019, amcangyfrifodd Greenpeace bod cynnydd o 65% wedi bod ers 2017 yn y defnydd o 'fagiau gydol oes' fesul aelwyd yn y DU; gyda phob aelwyd yn defnyddio 57 o fagiau plastig gydol oes mewn blwyddyn, sy'n fwy nag un yr wythnos[6]. Mae Greenpeace yn awgrymu bod bagiau gydol oes mewn gwirionedd yn 'fagiau am wythnos'. Mae'n mynegi ei bryderon yn yr adroddiad bod bagiau gydol oes yn cael eu defnyddio yn lle bagiau siopa untro ac nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio ddigon o weithiau i negyddu'u heffaith amgylcheddol. Hefyd, yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru (2018-2019), bagiau plastig trwchus oedd y math o fag mwyaf poblogaidd ar gyfer pob trip siopa[7].

[5] Life cycle assessment of supermarket carrier bags: a review of the bags available in 2006
[6] Greenpeace 'checking out on plastics' report (2021)
[7] Ailgylchu, a bagiau siopa (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2018 i Fawrth 2019 | LLYW.CYMRU

1.7 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (EWA 2016)[8] yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i estyn y tâl isaf presennol am fagiau siopa untro i fathau eraill o fagiau siopa, os bydd eu defnydd yn codi i lefelau sy'n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r pwerau hyn eto. Diben yr ymchwil hon yw helpu i ddatblygu opsiynau posibl pe bai'n penderfynu gwneud. Bwriedir iddi helpu i nodi'r pris fyddai fwyaf effeithiol i leihau effeithiau drwg cyfnewid am fagiau eraill (e.e. cynnydd yn ngwerthiant bagiau amldro nad ydynt wedyn yn cael eu hailddefnyddio), er mwyn sicrhau bod pa fathau bynnag o fagiau siopa a brynir yn cael eu hailddefnyddio gymaint o weithiau â phosibl.

1.8 Cynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol i bennu'r pris gorau ar gyfer y tâl hwn, pe bai'n cael ei estyn i fathau eraill o fagiau siopa[9]. Cyfrifwyd y prisiau a gynigiwyd ar sail y costau amgylcheddol a chymdeithasol. Fe welwch y costau ar gyfer yr 'opsiwn a ffefrir' yn Nhabl 1.1. Wrth bennu'r costau, fodd bynnag, ni roddwyd ystyriaeth i faint y byddai defnyddwyr yn fodlon ei dalu am wahanol fagiau. Felly, nid yw'n glir a fyddai'r prisiau a gynigir yn ddigon i newid ymddygiad defnyddwyr. At hynny, gan i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi yn 2015, mae'n debygol bod prisiau gwahanol fagiau siopa yn yr holl archfarchnadoedd wedi newid ers hynny.

**Tabl 1.1: Prisiau bagiau ar gyfer tâl graddedig yn seiliedig ar y gost amgylcheddol namyn costau sbwriel o'u cymharu â bagiau siopa untro plastig (cap o 65c)**

| Math o fag | Pris Manwerthu Gwreiddiol | Tâl Ychwanegol | Pris Manwerthu Isaf Newydd |
|---|---:|---:|---:|
| Bag siopa untro | 5c | 0c | 5c |
| Bag papur | 5c | 0c | 5c |
| Bag gydol oes 6c | 6c | 21c | 27c |
| Bag gydol oes 36c | 36c | 63c | 99c |
| Bag cotwm | £2.00 | 65c | £2.65 |

Wedi'i gymryd o Femorandwm Esboniadol Bil Amgylchedd (Cymru) Senedd Cymru, tud 197, *Tabl 19.* [10]

[8] Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 (Rhan 3: Tudalennau 54-64)
[9] Memorandwm Esboniadol Bil Amgylchedd (Cymru) Senedd Cymru
[10] Memorandwm Esboniadol Bil Amgylchedd (Cymru) Senedd Cymru

1.9 Dylid nodi bod y prisiau a restrir uchod yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael eu hystyried fel yr 'opsiwn a ffefrir' gan eu bod yn cynrychioli'r Gwerthoedd Presennol Net mwyaf (manteision y gwerth presennol namyn costau'r gwerth presennol).

1.10 Nod yr ymchwil hon oedd nodi'r pris uchaf y byddai defnyddwyr yn barod i'w dalu am wahanol fathau o fagiau siopa, ac yna i ddefnyddio'r wybodaeth ochr yn ochr ag ymchwil bellach, a'r ymchwil yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, i ystyried prisiau posibl ar gyfer pob math o fagiau siopa.

1.11 Defnyddir y canfyddiadau i helpu i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi unrhyw benderfyniad yn y dyfodol i estyn y tâl am fagiau siopa.

## 2. Methodoleg

2.1 Er mwyn cael sampl gynrychioliadol o holl oedolion Cymru, defnyddiwyd arolwg Omnibws Beaufort (yr Omnibws)[11]. Mae'r sampl Omnibws wedi'i gynllunio i fod yn sampl gynrychioliadol o 1000 o oedolion 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru. Fodd bynnag, oherwydd pandemig COVID-19, roedd yn amhosibl cynnal yr arolwg yn y ffordd arferol o gyfweld pobl wyneb yn wyneb mewn mannau dethol ledled Cymru. Yn hytrach, bu'n rhaid cynnal cyfweliadau ar-lein gan ddefnyddio platfform ar-lein Cint. Casglwyd ymatebion rhwng 22 Chwefror a 1 Mawrth 2021. Cwblhawyd a dadansoddwyd cyfanswm o 1,000 o gyfweliadau yng Nghymru.

2.2 Cafodd yr ymatebwyr ddewis i gwblhau'r ymchwil naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.

2.3 Y rheolaeth ddemograffig ar gwotâu'r arolwg oedd oedran o fewn rhyw. Rheolaeth arall ar y cwota oedd gradd gymdeithasol a chynhaliwyd cyfweliadau gyda thrigolion ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Er mwyn bodloni'r cwotâu, mae'r data wedi'u pwysoli yn ôl grŵp oedran, rhyw, grŵp Awdurdod Lleol a gradd gymdeithasol yn unol â ffigurau Cyfrifiad 2011 i sicrhau eu bod yn gwbl gynrychioliadol o boblogaeth oedolion (16+) Cymru.

2.4 Gofynnwyd cwestiynau i'r cyfranogwyr am eu parodrwydd i dalu am wahanol fathau o fagiau siopa a pha bris y byddent yn gwrthod ei dalu am y bag am ei fod yn rhy ddrud. Holwyd hefyd ynghylch cymhellion cyfranogwyr dros ddefnyddio bagiau siopa a'u defnydd ohonynt dros bandemig COVID-19.

2.5 Rhoddwyd opsiynau ymateb bob yn fwlch o 5 ceiniog neu 10 ceiniog hyd at £5 a 'mwy na £5' (gweler Atodiad A am restr lawn o gwestiynau'r arolwg). O ganlyniad i'r nifer fawr o opsiynau ymateb, nid ydym am gynnwys pob increment yn y graffiau, gan i gyn lleied ddewis rhai incrementau.

2.6 Cynhaliwyd dadansoddiad ystadegol yn fewnol yn y Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi o'r cwestiynau caeedig a defnyddiwyd dadansoddiad thematig Beaufort Omnibws ar gyfer y cwestiynau agored.

[11] Arolygon Omnibws - BeaufortResearch

2.7 Dylid nodi nad yw'r enwau ar gyfer y mathau hyn o fagiau yn gyson rhwng yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r darn ymchwil hwn. Lle gwneir cymariaethau ym mhennod gasgliadau'r adroddiad hwn rhwng y mathau o fagiau y cyfeirir atynt yn yr Asesiad Effaith a'r rhai yn yr arolwg hwn, mae'r diffiniadau o'r mathau o fagiau yn cyfateb i'w gilydd.

## Cyfyngiadau

2.8 Gallai defnyddio platform ar-lein Cint arwain at duedd yn y sampl o blaid y rhai sy'n gyfarwydd â'r digidol, gan eithrio'r rheini sydd heb gyswllt digidol.

2.9 Wrth ddehongli canfyddiadau'r arolwg hwn, dylid nodi mai dim ond agweddau a bwriadau a aseswyd. Felly, efallai na fydd ymddygiad gwirioneddol o ran prynu bagiau siopa yn cael ei adlewyrchu'n gywir yn y canfyddiadau hyn.

2.10 Pan brofir data'r arolwg am eu harwyddocâd ystadegol, gwneir rhagdybiaeth bod y sampl a gafwyd yn sampl hap o'r boblogaeth berthnasol. Fodd bynnag, gan fod Arolwg Omnibws Cymru yn samplu cwotâu cyfrannol (nid samplau hap), mae'n amhosib pennu eu gwir arwyddocâd ystadegol. Felly, pan ddisgrifir bod gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp yn 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn cyfeirio at wahaniaeth siwdo-ystadegol arwyddocaol ar lefel hyder o 95 y cant. Mae hyn yn golygu, pe bai'r arolwg yn defnyddio sampl hap, byddai tebygolrwydd o lai nag un o bob 20 y ceid yr un canlyniad hwnnw ar hap.

# 3. Canfyddiadau


## Parodrwydd i dalu am wahanol fathau o fagiau

### Bagiau Plastig Untro

3.1 Y pris uchaf ar gyfartaledd yr oedd cyfranogwyr yn barod i'w dalu am fag plastig untro oedd £0.07 a'r canolrif oedd £0.05. Fel y dengys Ffigur 3.1, £0.05 oedd yr ymateb mwyaf cyffredin, gyda thros hanner y cyfranogwyr yn ei ddewis (56%), Gan mai pris bag plastig untro ar hyn o bryd yw £0.05, mae hynny'n awgrymu bod cyfranogwyr yn derbyn y pris presennol.  Yr ail ymateb mwyaf cyffredin oedd £0.00 (h.y. dim tâl), gyda 25% yn dewis yr opsiwn hwnnw.

3.2 Nid oedd gwahaniaeth yn y pris canolrif yr oedd ymatebwyr yn barod i'w dalu am fag plastig untro yn ôl oed, rhyw na statws economaidd-gymdeithasol.

**Ffigur 3.1: Beth yw'r pris uchaf y byddech chi'n fodlon ei dalu am fag plastig untro? (Bagiau plastig untro, gweler Atodiad A am lun a disgrifiad)**





N = 1,000

3.3 Yna gofynnwyd i ymatebwyr pa bris fyddai'n rhy ddrud iddynt ystyried ei dalu am fag plastig untro. Cyfartaledd yr ymatebion oedd £0.24, a'r canolrif oedd £0.20. Roedd yr ymatebion yn amrywio o £0.00 i £5, gyda dau ymateb eithafol o £5. O'i gymharu â'r cwestiwn blaenorol, gwnaeth llai o'r ymatebwyr ddewis £0.00 a £0.05 (5% y naill a 12% y llall). Mae hyn yn awgrymu pe bai bagiau plastig untro yn codi o'u pris presennol o £0.05, byddai llai o bobl o bosibl yn eu prynu.

**Bag Plastig Gydol Oes**

3.4 Y pris uchaf ar gyfartaledd yr oedd cyfranogwyr yn barod i'w dalu am fag plastig gydol oes oedd £0.37 a'r canolrif oedd £0.20 a'r Amrediad Rhyngchwarterol (IQR) oedd £0.40. Fel y dengys Ffigur 3.3, roedd tuedd gan yr ymatebwyr i ddewis incrementau o 50 ceiniog.

**Figure 3.2: Beth yw'r pris uchaf y byddech chi'n fodlon ei dalu am fag plastig gydol oes? (Bagiau plastig gydol oes, gweler Atodiad A am lun a disgrifiad)**





3.5 Pan ofynnwyd pa bris fyddai'n rhy ddrud iddynt ystyried ei dalu am fag plastig gydol oes, yr ymatebion ar gyfartaledd oedd £0.71 a'r canolrif oedd £0.50 (IQR= £0.50). Unwaith eto, aeth yr ymatebwyr am incrementau o 50 ceiniog.

**Bag Plastig Gydol Oes Cryfder Ychwanegol**

3.6 Roedd ymatebwyr, ar gyfartaledd, yn barod i dalu mwy am fagiau plastig gydol oes cryfder ychwanegol nag am fagiau plastig untro neu fagiau plastig gydol oes safonol. Y pris uchaf, ar gyfartaledd, yr oedd cyfranogwyr yn barod i'w dalu am fag plastig gydol oes cryfder ychwanegol oedd £1.26 a'r canolrif oedd £1.00 a'r IQR oedd £1.00-£1.40 (29%). Dewiswyd £1 gan y ganran fwyaf (25%) o ymatebwyr ar draws yr incrementau 10c, ac yna £0.50 (13%) a £2 (11%).

3.7 Unwaith eto, roedd ychydig o wahaniaeth yn y canolrif roedd ymatebwyr yn barod i'w dalu yn ôl oedran. Y pris canolrif i bobl 65+ oed oedd £0.70 (IQR=£0.90). Ar y llaw arall, ar gyfer y grwpiau oed eraill, y canolrif oedd £1.00. Y grŵp 25-34 oed oedd y mwyaf amrywiol (IQR=£1.40) a'r grŵp 55-64 oedd y lleiaf amrywiol (IQR=£0.60). Nid oedd gwahaniaeth yn y pris canolrif yn ôl statws economaidd gymdeithasol na rhyw.

**Ffigur 3.3: Beth yw'r pris uchaf y byddech chi'n fodlon ei dalu am fag plastig gydol oes cryfder ychwanegol? (Bagiau Plastig Gydol Oes Cryfder Ychwanegol, gweler Atodiad A am lun a disgrifiad)**




3.8 Pan ofynnwyd pa bris fyddai'n rhy ddrud iddynt ystyried ei dalu am fag plastig gydol oes cryfder ychwanegol, cyfartaledd yr ymatebion oedd £1.90 a'r canolrif oedd £1.50. Mae'r IQR yn gymharol uchel (IQR= £1.30) o'i gymharu â bagiau siopa untro

a bagiau plastig gydol oes, gan awgrymu bod mwy o amrywiaeth yn y pris yr oedd ymatebwyr yn ei gredu oedd yn rhy frud i'w dalu am fag plastig cryf.

**Bag Cynfas Gydol Oes Cryfder Ychwanegol**


**3.9** Y pris uchaf ar gyfartaledd yr oedd cyfranogwyr yn barod i'w dalu am fag cynfas gydol oes cryfder ychwanegol oedd £1.55 a'r canolrif oedd £1.10 (IQR=£1). Fel y dengys Ffigur 3.4, ac fel bagiau siopa plastig cryf, y categori pris a ddewiswyd gan y ganran uchaf o ymatebwyr oedd £1-£1.40 (27%). Unwaith eto, £1 oedd y pris a ddewiswyd gan y ganran uchaf (23%) o ymatebwyr ar draws yr incrementau o 10 ceiniog. Mae hyn yn awgrymu na fydd angen i'r pris am fagiau cynfas gydol oes cryfder ychwanegol fod yn wahanol iawn i'r pris am fagiau plastig gydol oes cryfder ychwanegol, gan fod y parodrwydd i dalu am y ddau fath o fag yn debyg.

3.10 Unwaith eto, roedd ychydig o wahaniaeth yn y pris canolrif roedd ymatebwyr yn barod i'w dalu yn ôl oedran. Yn benodol, roedd pobl 55-64 oed yn barod i dalu mwy na phobl 25-34 oed. Canolrif y grŵp 55-64 oed oedd £1.50 (IQR=£0.80) ac roedd 95% o ymatebion y grŵp hwn o dan £5, ond canolrif y grŵp 25-34 oed oedd £1.00 (IQR=£1.20) gyda 95% o'i ymatebion o dan £3.70. Roedd ychydig bach o wahaniaeth yn ôl statws economaidd gymdeithasol. Roedd grŵp ABC1 (gweler geirfa) wedi cynnig pris canolrif o £1.00 (IQR=£1) a'r rheini yn y grŵp C2DE wedi rhoi pris canolrif o £1.20 (IQR=£1).

3.11 Roedd dynion yn fodlon talu llai am fagiau cynfas cryf na menywod. Pris canolrif dynion oedd £1 (IQR-£1.20) ond canolrif menywod oedd £1.50 (IQR=£0.80). At hynny, roedd 95% o ymatebion dynion o dan £4. Y ffigur cyfatebol ar gyfer menywod oedd £4.70.

3.12 Y pris cyfartalog na fyddai'r cyfranogwyr yn barod i'w dalu i brynu bag am ei fod yn rhy ddrud oedd £2.22 a'r canolrif oedd £1.80 (IQR=£1.70). Mae'r IQR uchel o £1.70 a'r gwahaniaethau rhwng grwpiau demograffig gwahanol yn awgrymu bod diffyg consensws rhwng cyfranogwyr ynghylch faint yw gwerth bag cynfas cryf.

**Ffigur 3.4: Beth yw'r pris uchaf y byddech chi'n fodlon ei dalu am fag cynfas gydol oes cryfder ychwanegol? (Bagiau Cynfas Gydol Oes Cryfder Ychwanegol, gweler Atodiad A am lun a disgrifiad)**




N=1,000

**Bag Defnydd Gydol Oes Cryfder Ychwanegol**

3.13 Y pris uchaf ar gyfartaledd yr oedd cyfranogwyr yn barod i'w dalu am fag defnydd gydol oes cryfder ychwanegol oedd £1.39 a'r canolrif oedd £1 (IQR=£1.10). Fel y dengys Ffigur 3.5, ac fel y ddau fag blaenorol, y categori pris y gwnaeth y ganran uchaf o ymatebwyr ei ddewis oedd £1-£1.40 (27%). Unwaith eto, £1 oedd y pris a ddewiswyd gan y ganran uchaf (22%) o ymatebwyr ar draws yr incrementau o 10 ceiniog.


3.14 Roedd y pris canolrif yr oedd y grŵp 55-64 oed yn barod i'w dalu am y bagiau hyn yn uwch, sef £1.30 (IQR=0.80). Pris canolrif pob grŵp arall oedd £1.00.

3.15 Roedd dynion yn fwy tebygol o ddweud pris canolrif is o £1 (IQR=£0.80) fel y pris roeddent yn barod i'w dalu am fagiau defnydd cryfder ychwanegol na menywod (Canolrif=£1.30, IQR=£0.80). Roedd 95% o ymatebion dynion o dan £3. Y ffigur

cyfatebol ar gyfer menywod oedd £3.50. Gwelwyd gwahaniaethau rhwng y rhywiau hefyd o ran y tebygolrwydd o ddefnyddio bagiau amldro di-blastig.

3.16 Y pris cyfartalog na fyddai'r cyfranogwyr yn barod i'w dalu i brynu bag am ei fod yn rhy ddrud oedd £2.05 a'r canolrif oedd £1.70 (IQR=£1.40). Unwaith eto, mae'r IQR uchel a'r gwahaniaethau rhwng grwpiau demograffig gwahanol yn awgrymu bod diffyg consensws rhwng cyfranogwyr ynghylch faint yw gwerth bag defnydd cryfder ychwanegol.

**Ffigur 3.5: Beth yw'r pris uchaf y byddech chi'n fodlon ei dalu am fag defnydd gydol oes cryfder ychwanegol? (Bagiau Defnydd Gydol Oes Cryfder Ychwanegol, gweler Atodiad A am lun a disgrifiad)**




N=1,000

**Bag Cotwm**


3.17 Y pris uchaf ar gyfartaledd yr oedd cyfranogwyr yn barod i'w dalu am fag cotwm oedd £1.19 a'r canolrif oedd £1 (IQR=£0.80). Fel y dengys Ffigur 3.6, ac fel y tri bag blaenorol, y categori pris y gwnaeth y ganran uchaf o ymatebwyr ei ddewis oedd

£1-£1.40 (30%). Unwaith eto, £1 oedd y pris a ddewiswyd gan y ganran uchaf (25%) o ymatebwyr ar draws yr incrementau o 10 ceiniog.

3.18 Yr un oedd y pris canolrif yr oedd yr ymatebwyr yn barod i'w dalu ar draws y grwpiau oed, rhyw ac economaidd-gymdeithasol.

3.19 Y pris na fyddai'r cyfranogwyr yn barod i'w dalu i brynu bag am ei fod yn rhy ddrud oedd £1.78 a'r canolrif oedd £1.19 (IQR=£0.90).

**Ffigur 3.6: Beth yw'r pris uchaf y byddech chi'n fodlon ei dalu am fag cotwm? (Bagiau Cotwm, gweler Atodiad A am lun a disgrifiad)**




N=1,000


**Cymhellion/Rhesymau dros ddefnyddio Bagiau Siopa**

3.20 Rhoddwyd amrywiaeth o resymau posibl i'r cyfranogwyr dros ddod â'u bagiau siopa eu hunain i'r archfarchnad yn hytrach na phrynu un a gofynnwyd iddynt ddewis pob un a oedd yn berthnasol. Fel y dengys Ffigur 3.7, y rheswm a roddwyd gan y ganran uchaf oedd yr amgylchedd (74%) fel o leiaf un rheswm dros ddod â'u bagiau eu hunain. Y dewis nesaf, yn ail agos oedd arbed arian ar 69%. Cafodd yr holl

resymau eraill sgôr is na 50% gan yr holl gyfranogwyr, gyda 'Byddwn yn teimlo cywilydd i ofyn am fag' gyda'r nifer isaf o ymatebion ar 4%.

3.21 Yna rhoddwyd i'r cyfranogwyr restr o resymau dros ddefnyddio eu bagiau siopa eu hunain a gofynnwyd iddynt ddewis y rheswm *pwysicaf*. Yr amgylchedd oedd ateb 45% o'r ymatebwyr, arbed arian oedd ateb 29% ac ateb 15% oedd 'Rwyf bob amser wedi gwneud hynny'. Roedd ymatebwyr yng nghategori oedran 16-34 yn llai tebygol o ddewis 'rhesymau amgylcheddol' fel eu prif gymhelliant i ddefnyddio eu bagiau siopa eu hunain na grwpiau oedran eraill (canlyniad ystadegol arwyddocaol). Roedd y rhai 16-34 oed hefyd yn llawer mwy tebygol o ddewis 'I arbed arian' tra bod y rhai 55+ oed yn llai tebygol o ddewis y rheswm hwn. Ni welwyd unrhyw wahaniaethau ystadegol arwyddocaol eraill ymhlith y grwpiau a ymatebodd.

**Ffigur 3.7: Gan feddwl am adegau rydych wedi defnyddio eich bagiau siopa eich hun mewn siopau (yn hytrach na'u prynu nhw wrth dalu), beth oedd eich rheswm am wneud hyn? Dewiswch y rhai sy'n berthnasol i chi.**





N=1000

## Newidiadau yn y defnydd o fagiau siopa ers dechrau pandemig COVID-19

3.22 Gofynnwyd i'r cyfranogwyr sut y maent wedi bod yn siopa am fwyd ers dechrau'r pandemig. Mae tua hanner yr ymatebwyr (49%) wedi bod yn mynd i'r siopau, mae tua thraean (30%) wedi bod yn mynd i'r siopau a siopa ar-lein, mae 18% wedi bod yn siopa ar-lein/clicio a chasglu yn unig, ac mae gan leiafrif bach iawn rywun yn siopa drostyn nhw (2%).

3.23 O'r cyfranogwyr hynny sy'n mynd i'r siopau am eu bwyd (N=796), gofynnwyd iddynt sut mae eu defnydd o fagiau siopa wedi newid ers dechrau'r pandemig (Gweler Ffigur 3.8). Mae'r mwyafrif (92%) yn defnyddio'r un nifer (47%) neu lai (45%) o fagiau untro. Dim ond lleiafrif bach (5%) sy'n defnyddio mwy o fagiau untro.

**Ffigur 3.8: Ers pandemig COVID-19, sut mae eich defnydd o fagiau untro wedi newid, o gymharu â chyn y pandemig?**





N=796

3.24 Gofynnwyd i'r rhai a ddywedodd eu bod yn defnyddio llai neu fwy o fagiau untro (n= 392), roi'r prif reswm dros y newid hwn fel ymateb penagored. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd rhesymau amgylcheddol (33%) (gweler Ffigur 3.11 am ddetholiad o ymatebion, gweler yr atodiad am dabl llawn o bob rheswm). Roedd ymatebwyr yng ngrŵp oed 16-34 yn fwy tebygol o ddewis 'Er hwylustod/rhwyddineb' fel eu prif reswm dros newid eu defnydd o fagiau (gwelwyd bod hyn yn ystadegol

arwyddocaol). Roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol hefyd rhwng grwpiau oed i'r ymateb 'Ddim yn defnyddio bagiau untro' gyda'r rhai yng ngrŵp oed 55+ yn fwy tebygol o ddewis yr opsiwn hwn. Roedd y rhai yn y grŵp oed 16-34 yn llawer llai tebygol o ddewis yr ymateb hwn.

**Ffigur 3.9: Beth yw'r prif reswm dros newid eich defnydd o fagiau siopa untro?**




N=392

# 4. Casgliadau

4.1 Cynhaliwyd yr ymchwil hon i ddeall parodrwydd y cyhoedd i dalu am wahanol fathau o fagiau siopa, eu rhesymau dros ailddefnyddio bagiau siopa a'r newidiadau yn eu defnydd o fagiau siopa dros bandemig COVID-19. Defnyddir yr wybodaeth i benderfynu a ddylid codi tâl statudol am fathau eraill o fagiau siopa.

4.2 Yn achos pob un o'r chwe math o fagiau siopa, roedd y pris cyfartalog mwya yr oedd cyfranogwyr yn barod i'w wario yn gyson is na'r pris cyfartalog y byddai cyfranogwyr yn gwrthod ei dalu i brynu bag oherwydd ei fod yn rhy ddrud. Mae hyn yn rhywbeth y bydd angen i Lywodraeth Cymru ei ystyried wrth ddeddfu ar bris gwahanol fagiau siopa.

4.3 Cafwyd yr ymatebion mwyaf pendant ynghylch bagiau siopa untro; y pris canolrif uchaf yr oedd cyfranogwyr yn fodlon ei wario oedd £0.05, dyna oedd dewis dros hanner yr ymatebwyr. Byddai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (64%) yn gwrthod prynu bag siopa untro pe bai'n £0.20 neu'n uwch. Mae hyn yn awgrymu bod pris presennol bagiau siopa untro yn cael ei ystyried yn dderbyniol ymhlith y cyhoedd, a phe bai'n cynyddu, efallai y byddai llai o bobl yn eu prynu.

4.4 Yn achos bagiau plastig gydol oes, y pris canolrif uchaf yr oedd cyfranogwyr yn barod i'w wario oedd £0.20. Y pris canolrif yr oedd cyfranogwyr yn credu fyddai'n rhy ddrud iddynt oedd £0.50. Roedd yr ymatebion yn fwy amrywiol nag ar gyfer bagiau siopa untro, heb yr un increment 10 ceiniog yn cael mwyafrif yr ymatebion. Mae Tabl 1.1 yn dangos y costau a ffefrir ar gyfer gwahanol fathau o fagiau o'r Asesiad o'r Effaith Rheoleiddiol. Y costau a ffefrir ar gyfer bag plastig gydol oes oedd 27 ceiniog[12]. Fodd bynnag, mae'r ymchwil hon yn awgrymu y byddai 27 ceiniog am fag plastig gydol oes yn uwch na'r pris uchaf y byddai cyfranogwyr yn fodlon ei dalu, ond yn is na'r pris fyddai'n ei wneud yn rhy ddrud i'w brynu. Felly, mae'n anodd dod i'r casgliad o'r ymchwil hon a fyddai codi tâl o 27 ceiniog am fag yn effeithio ar ymddygiad prynu.

[12] Memorandwm Esboniadol Bil Amgylchedd (Cymru) Senedd Cymru

4.5 Canolrif y pris uchaf yr oedd cyfranogwyr yn fodlon ei wario am fagiau cotwm a'r tri math o fag gydol oes cryfder ychwanegol (plastig, cynfas a defnydd) oedd £1. Fodd bynnag, dylid nodi bod cyfranogwyr wedi dewis opsiynau prisiau ar draws yr ystod ar gyfer pob un o'r bagiau hyn, heb yr un opsiwn neu glwstwr prisiau yn ddewis i fwyafrif y cyfranogwyr. Y costau a ffefrir gan yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Tabl 1.1) ar gyfer bag cotwm oedd £2.65. Mae'r ymchwil hon yn awgrymu y byddai £2.65 am fagiau cotwm yn uwch na'r pris uchaf y byddai cyfranogwyr yn fodlon ei dalu, ac felly'n arwain at ostyngiad yn y nifer fyddai'n eu prynu.

4.6 Yn achos yr holl fagiau gydol oes cryfder ychwanegol, y pris canolrif fyddai'n eu gwneud yn rhy ddrud i'w prynu oedd £1.50 ar gyfer y mathau plastig, £1.70 ar gyfer rhai defnydd ac £1.80 ar gyfer bagiau cynfas. Ar gyfer bagiau cotwm, y pris canolrif a oedd ym marn y cyfranogwyr yn rhy ddrud oedd £1.19. Y pris a ffefrir ar gyfer bagiau gydol oes cryfder ychwanegol (36p BGL) oedd 99 ceiniog yn ôl yr RIA (Tabl 1.1.). Mae'r ymchwil hon yn awgrymu y byddai codi 99 ceiniog am fag gydol oes cryfder ychwanegol yn is na'r pris uchaf y byddai cyfranogwyr yn fodlon ei dalu ac felly'n annhebygol o arwain at brynu llai o fagiau o'r math hwn.

4.7 Cafwyd yr amrywiaeth fwyaf yn yr ymatebion i'r pris yr oedd cyfranogwyr yn barod i'w dalu (a'i ystyried yn rhy ddrud) am y tri bag gydol oes cryfder ychwanegol (plastig, defnydd a chynfas). Mae hyn yn dangos diffyg consensws ac ansicrwydd ymhlith cyfranogwyr ynghylch faint yw gwerth y mathau hyn o fagiau. Felly, efallai na fydd tâl statudol yn cael yr un effaith ar ddewisiadau prynu pawb.

4.8 Roedd rhai gwahaniaethau rhwng grwpiau oed a rhyw yn yr ymatebion i rai bagiau gydol oes cryfder ychwanegol. Er enghraifft, roedd y grŵp oed 55-64 yn barod i dalu mwy na grwpiau oed eraill am fagiau cynfas a defnydd gydol oes. Hefyd, roedd menywod yn barod i dalu mwy am fagiau cynfas a defnydd gydol oes cryfder ychwanegol na dynion. Gallai dadansoddiad demograffig manylach fod o fudd mewn ymchwil yn y dyfodol.

4.9 'Yr Amgylchedd' oedd y rheswm pwysicaf i gyfranogwyr dros ddod â'u bagiau siopa eu hunain i'r archfarchnad yn hytrach na'u prynu yn y siop. Y rheswm nesaf oedd arbed arian. Hefyd, i'r rhai a oedd wedi newid eu defnydd o fagiau siopa untro ers

dechrau'r pandemig (50% o'r cyfranogwyr), dewiswyd yr amgylchedd gan y ganran uchaf o ymatebwyr (33%) fel y rheswm dros y newid.

4.10 Ers dechrau'r pandemig, mae tua hanner (49%) yr ymatebwyr yn mynd i'r siopau i siopa am eu bwyd ac mae ychydig o dan hanner (48%) naill ai'n siopa ar-lein yn unig (gan gynnwys clicio a chasglu) (18%) neu gyfuniad o fynd i'r siop a siopa ar-lein (30%). O'r rheini a ddywedodd eu bod yn mynd i'r siop i siopa am eu bwyd ers dechrau'r pandemig, mae'r mwyafrif yn defnyddio'r un faint neu lai o fagiau untro na chyn y pandemig. Gallai'r pandemig gael effeithiau hirdymor ar y ffyrdd y mae pobl yn siopa, a gallai hynny ddylanwadu ar y defnydd o fagiau siopa a'n canfyddiadau ohonynt.

4.11 Gallai ymchwil yn y dyfodol archwilio ffactorau eraill, yn ogystal â'r pris, a allai annog ailddefnyddio bagiau siopa.

**Atodiad A - Yr Arolwg**

Hoffem ofyn rai cwestiynau i chi am eich defnydd o fagiau siopa gwahanol, a rhai arferion siopa eraill. Ar gyfer rhai cwestiynau darperir diffiniadau a lluniau er mwyn dangos yn glir pa fath o fag rydym yn siarad amdano. Darllenwch bob diffiniad a chwestiwn yn ofalus cyn ateb

**Bag plastig untro**

Mae'r bagiau hyn yn denau ac nid ydynt wedi cael eu creu'n benodol i'w defnyddio fwy nag unwaith. Gweler yr enghraifft isod.



1) Beth yw'r pris uchaf y byddech chi'n fodlon ei dalu am y math hwn o fag?

£0.00
£0.10
£0.20
£0.30
£0.40
£0.50
£0.60
£0.70
£0.80
£0.90
£1.00

£1.10
£1.20
£1.30
£1.40
£1.50
£1.60
£1.70
£1.80
£1.90
£2.00
£2.10
£2.20
£2.30
£2.40
£2.50
£2.60
£2.70
£2.80
£2.90
£3.00
£3.10
£3.20
£3.30
£3.40
£3.50
£3.60
£3.70
£3.80
£3.90
£4.00
£4.10
£4.20
£4.30
£4.40
£4.50
£4.60
£4.70
£4.80
£4.90
£5.00
Mwy na £5.00
Ddim yn gwybod

2) Yn eich barn chi, pa bris fyddai'n rhy uchel ar gyfer prynu'r math hwn o fag i gario eich neges?

£0.00
£0.10
£0.20
£0.30
£0.40
£0.50
£0.60
£0.70
£0.80
£0.90
£1.00
£1.10
£1.20
£1.30
£1.40
£1.50
£1.60
£1.70
£1.80
£1.90
£2.00
£2.10
£2.20
£2.30
£2.40
£2.50
£2.60
£2.70
£2.80
£2.90
£3.00
£3.10
£3.20
£3.30
£3.40
£3.50
£3.60
£3.70

£3.80
£3.90
£4.00
£4.10
£4.20
£4.30
£4.40
£4.50
£4.60
£4.70
£4.80
£4.90
£5.00
Mwy na £5.00
Ddim yn gwybod

## Bag plastig gydol oes

Mae'r bagiau hyn yn debyg i fagiau plastig untro, ond maent wedi cael eu gwneud o blastig fwy trwchus, gyda'r bwriad i'w hailddefnyddio wrth fynd i siopa. Gweler yr enghreifftiau isod.





3) Beth yw'r pris uchaf y byddech chi'n fodlon ei dalu am y math hwn o fag?

£0.00
£0.10
£0.20
£0.30
£0.40
£0.50
£0.60
£0.70
£0.80
£0.90
£1.00
£1.10
£1.20
£1.30
£1.40
£1.50
£1.60
£1.70
£1.80
£1.90
£2.00

£2.10
£2.20
£2.30
£2.40
£2.50
£2.60
£2.70
£2.80
£2.90
£3.00
£3.10
£3.20
£3.30
£3.40
£3.50
£3.60
£3.70
£3.80
£3.90
£4.00
£4.10
£4.20
£4.30
£4.40
£4.50
£4.60
£4.70
£4.80
£4.90
£5.00
Mwy na £5.00
Ddim yn gwybod

---

4) Yn eich barn chi, pa bris fyddai'n rhy uchel ar gyfer prynu'r math hwn o fag i gario eich neges?

£0.00
£0.10
£0.20
£0.30

£0.40
£0.50
£0.60
£0.70
£0.80
£0.90
£1.00
£1.10
£1.20
£1.30
£1.40
£1.50
£1.60
£1.70
£1.80
£1.90
£2.00
£2.10
£2.20
£2.30
£2.40
£2.50
£2.60
£2.70
£2.80
£2.90
£3.00
£3.10
£3.20
£3.30
£3.40
£3.50
£3.60
£3.70
£3.80
£3.90
£4.00
£4.10
£4.20
£4.30
£4.40
£4.50
£4.60

£4.70
£4.80
£4.90
£5.00
Mwy na £5.00
Ddim yn gwybod

---

**Bag plastig gydol oes cryfder ychwanegol**

Mae'r bagiau hyn yn fwy na'r bagiau plastig untro, a bagiau plastig gydol oes arferol. Maent wedi cael eu gwneud o blastig caled parhaol ac wedi'u dylunio i gael eu hailddefnyddio sawl gwaith. Gweler yr enghraifft isod.



5) Beth yw'r pris uchaf y byddech chi'n fodlon ei dalu am y math hwn o fag?

£0.00
£0.10
£0.20
£0.30
£0.40
£0.50
£0.60
£0.70
£0.80

£0.90
£1.00
£1.10
£1.20
£1.30
£1.40
£1.50
£1.60
£1.70
£1.80
£1.90
£2.00
£2.10
£2.20
£2.30
£2.40
£2.50
£2.60
£2.70
£2.80
£2.90
£3.00
£3.10
£3.20
£3.30
£3.40
£3.50
£3.60
£3.70
£3.80
£3.90
£4.00
£4.10
£4.20
£4.30
£4.40
£4.50
£4.60
£4.70
£4.80
£4.90
£5.00
Myw na £5.00

Ddim yn gwybod

---

6) Yn eich barn chi, pa bris fyddai'n rhy uchel ar gyfer prynu'r math hwn o fag i gario eich neges?

£0.00
£0.10
£0.20
£0.30
£0.40
£0.50
£0.60
£0.70
£0.80
£0.90
£1.00
£1.10
£1.20
£1.30
£1.40
£1.50
£1.60
£1.70
£1.80
£1.90
£2.00
£2.10
£2.20
£2.30
£2.40
£2.50
£2.60
£2.70
£2.80
£2.90
£3.00
£3.10
£3.20
£3.30
£3.40

£3.50
£3.60
£3.70
£3.80
£3.90
£4.00
£4.10
£4.20
£4.30
£4.40
£4.50
£4.60
£4.70
£4.80
£4.90
£5.00
Mwy na £5.00
Ddim yn gwybod

---

**Bag cynfas gydol oes cryfder ychwanegol**

Mae'r bagiau hyn yn fwy na'r bagiau plastig untro, a bagiau plastig gydol oes arferol. Maent wedi cael eu gwneud o gynfas neu hesian, ac wedi'u dylunio i gael eu hailddefnyddio sawl gwaith. Gweler yr enghraifft isod.



7) Beth yw'r pris uchaf y byddech chi'n fodlon ei dalu am y math hwn o fag?

£0.00
£0.10
£0.20
£0.30
£0.40
£0.50
£0.60
£0.70
£0.80
£0.90
£1.00
£1.10
£1.20
£1.30
£1.40
£1.50
£1.60
£1.70
£1.80
£1.90
£2.00
£2.10
£2.20
£2.30
£2.40
£2.50
£2.60
£2.70
£2.80
£2.90
£3.00
£3.10
£3.20
£3.30
£3.40
£3.50
£3.60
£3.70
£3.80
£3.90

£4.00
£4.10
£4.20
£4.30
£4.40
£4.50
£4.60
£4.70
£4.80
£4.90
£5.00
Mwy na £5.00
Ddim yn gwybod

---

8) Yn eich barn chi, pa bris fyddai'n rhy uchel ar gyfer prynu'r math hwn o fag i gario eich neges?

£0.00
£0.10
£0.20
£0.30
£0.40
£0.50
£0.60
£0.70
£0.80
£0.90
£1.00
£1.10
£1.20
£1.30
£1.40
£1.50
£1.60
£1.70
£1.80
£1.90
£2.00
£2.10
£2.20

£2.30
£2.40
£2.50
£2.60
£2.70
£2.80
£2.90
£3.00
£3.10
£3.20
£3.30
£3.40
£3.50
£3.60
£3.70
£3.80
£3.90
£4.00
£4.10
£4.20
£4.30
£4.40
£4.50
£4.60
£4.70
£4.80
£4.90
£5.00
Mwy na £5.00
Ddim yn gwybod

---

**Bag defnydd gydol oes cryfder ychwanegol**

Mae'r bagiau hyn yn fwy na'r bagiau plastig untro, a bagiau plastig gydol oes arferol. Maent wedi cael eu gwneud o ddefnydd artiffisial, ac wedi'u dylunio i gael eu hailddefnyddio sawl gwaith. Gweler yr enghraifft isod.



9) Beth yw'r pris uchaf y byddech chi'n fodlon ei dalu am y math hwn o fag?

£0.00
£0.10
£0.20
£0.30
£0.40
£0.50
£0.60
£0.70
£0.80
£0.90
£1.00
£1.10
£1.20
£1.30
£1.40
£1.50
£1.60
£1.70
£1.80
£1.90
£2.00
£2.10

£2.20
£2.30
£2.40
£2.50
£2.60
£2.70
£2.80
£2.90
£3.00
£3.10
£3.20
£3.30
£3.40
£3.50
£3.60
£3.70
£3.80
£3.90
£4.00
£4.10
£4.20
£4.30
£4.40
£4.50
£4.60
£4.70
£4.80
£4.90
£5.00
Mwy na £5.00
Ddim yn gwybod

---

10) Yn eich barn chi, pa bris fyddai'n rhy uchel ar gyfer prynu'r math hwn o fag i gario eich neges?

£0.00
£0.10
£0.20
£0.30
£0.40

£0.50
£0.60
£0.70
£0.80
£0.90
£1.00
£1.10
£1.20
£1.30
£1.40
£1.50
£1.60
£1.70
£1.80
£1.90
£2.00
£2.10
£2.20
£2.30
£2.40
£2.50
£2.60
£2.70
£2.80
£2.90
£3.00
£3.10
£3.20
£3.30
£3.40
£3.50
£3.60
£3.70
£3.80
£3.90
£4.00
£4.10
£4.20
£4.30
£4.40
£4.50
£4.60
£4.70

£4.80
£4.90
£5.00
Mwy na £5.00
Ddim yn gwybod

**Bag cotwm**

Mae'r bagiau hyn yn fwy na'r bagiau plastig untro, a bagiau plastig gydol oes arferol. Maent wedi cael eu gwneud o gotwm, ac wedi'u dylunio i gael eu hailddefnyddio sawl gwaith. Gweler yr enghraifft isod.



11) Beth yw'r pris uchaf y byddech chi'n fodlon ei dalu am y math hwn o fag?

£0.00
£0.10
£0.20
£0.30
£0.40
£0.50
£0.60
£0.70

£0.80
£0.90
£1.00
£1.10
£1.20
£1.30
£1.40
£1.50
£1.60
£1.70
£1.80
£1.90
£2.00
£2.10
£2.20
£2.30
£2.40
£2.50
£2.60
£2.70
£2.80
£2.90
£3.00
£3.10
£3.20
£3.30
£3.40
£3.50
£3.60
£3.70
£3.80
£3.90
£4.00
£4.10
£4.20
£4.30
£4.40
£4.50
£4.60
£4.70
£4.80
£4.90
£5.00

Mwy na £5.00
Ddim yn gwybod

---

12) Yn eich barn chi, pa bris fyddai'n rhy uchel ar gyfer prynu'r math hwn o fag i gario eich neges?

£0.00
£0.10
£0.20
£0.30
£0.40
£0.50
£0.60
£0.70
£0.80
£0.90
£1.00
£1.10
£1.20
£1.30
£1.40
£1.50
£1.60
£1.70
£1.80
£1.90
£2.00
£2.10
£2.20
£2.30
£2.40
£2.50
£2.60
£2.70
£2.80
£2.90
£3.00
£3.10
£3.20
£3.30

£3.40
£3.50
£3.60
£3.70
£3.80
£3.90
£4.00
£4.10
£4.20
£4.30
£4.40
£4.50
£4.60
£4.70
£4.80
£4.90
£5.00
Mwy na £5.00
Ddim yn gwybod

13) Gan feddwl am adegau rydych wedi defnyddio eich bagiau siopa eich hun mewn siopau (yn hytrach na'u prynu nhw wrth dalu), beth oedd eich rheswm am wneud hyn?

1) Rhesymau amgylcheddol
2) I arbed arian
3) Rhesymau hylendid
4) Byddai gennyf gywilydd gofyn am fag wrth dalu
5) Mae pawb arall yn ei wneud
6) Rwyf wedi gwneud hyn erioed
7) Cyfleustra
8) Rheswm arall (nodwch)

14) Gan feddwl am y rhesymau rydych wedi'u dewis uchod ar gyfer defnyddio eich bagiau siopa eich hun mewn siopau (yn hytrach na'u prynu nhw wrth dalu), beth oedd y rheswm **pwysicaf** i chi wneud hyn? Dewiswch un.

1) Rhesymau amgylcheddol

2) I arbed arian

3) Rhesymau hylendid

4) Byddai gennyf gywilydd gofyn am fag wrth dalu

5) Mae pawb arall yn ei wneud

6) Rwyf wedi gwneud hyn erioed

7) Cyfleustra

8) Rheswm arall (nodwch)

---

Rydym yn awyddus i ddeall sut mae eich defnydd o fagiau siopa wedi newid ers pandemig COVID-19.

15) Ers cychwyn pandemig COVID-19, sut ydych chi'n dueddol o brynu eich neges?

1) Ar-lein neu clicio a chasglu
2) Yn y siop
3) Ar-lein ac yn y siop
4) Mae rhywun arall yn prynu fy neges ar fy rhan

---

(Os mai 2 neu 3 oedd eich ateb)

16) Ers pandemig COVID-19, sut mae eich defnydd o fagiau untro wedi newid, o gymharu â chyn y pandemig?

Rwy'n defnyddio..

Llai o fagiau untro,

Yr un faint o fagiau untro,

Mwy o fagiau untro

---

17) (os mai llai neu fwy oedd eich ateb)

Beth yw'r prif reswm am newid y ffordd rydych yn defnyddio bagiau untro? Atebwch yn y bocs isod

## Atodiad B – Tablau Demograffig

### Rhanbarth

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Y Gogledd | 222 | 22.2 |
| Y Canolbarth/Gorllewin | 169 | 16.9 |
| Gorllewin y De | 169 | 16.9 |
| Y Cymoedd | 173 | 17.3 |
| Caerdydd a Dwyrain y De | 258 | 25.8 |
| CYFANSWM | 991 | 99.1 |
| Yn eisiau | 9 | 0.9 |

### Rhyw

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Menywod | 509 | 50.9 |
| Dynion | 483 | 48.3 |
| Cyfanswm | 992 | 99.2 |
| Yn eisiau | 8 | 0.8 |

**Gradd Gymdeithasol**

| | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| AB | 200 | 20 |
| C1 | 320 | 32 |
| C2 | 210 | 21 |
| DE | 270 | 27 |
| **Cyfanswm** | 1000 | 100 |
| ABC1 | 520 | 52 |
| C2DE | 480 | 48 |
| **Cyfanswm** | 100 | 100 |

**Oed**

| | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| 16-24 | 172 | 17.2 |
| 25-34 | 130 | 13.0 |
| 35-44 | 159 | 15.9 |
| 45-54 | 167 | 16.7 |
| 65+ | 169 | 16.9 |
| Cyfanswm | 1000 | 100.0 |

**Siaradwyr Cymraeg**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydyn | 333 | 33.3 |
| Nac ydyn | 660 | 66.0 |
| Cyfanswm | 993 | 99.3 |
| Yn eisiau | 7 | 7.0 |